

Rheoliad 62 – Adroddiad Monitro 2014/15 a 2015/16Cefndir

Daeth ffioedd Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf i rym ar 31 Rhagfyr 2014. Mae'r Cyngor yn Awdurdod Codi Tâl yn ogystal ag Awdurdod Casglu Tâl. Mae Rheoliad 62 o Reoliadau Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Codi Tâl lunio adroddiad blynyddol yn rhoi manylion incwm a gwariant Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Cyngor Rhondda Taf, sy'n ymdrin â'r cyfnod 31 Rhagfyr 2014 tan 31 Mawrth 2015, ac 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2016.

Pennu arian Ardoll Seilwaith Cymunedol

Mae'n ofynnol i bennu arian Ardoll Seilwaith Cymunedol fel a ganlyn:

- Fe geir cymhwyso hyd at 15% o Ardoll Seilwaith Cymunedol tuag at waith gweithredu ac at waith gweinyddu parhaus.
- Rhoddir hyd at 15% o Ardoll Seilwaith Cymunedol i'r Cyngor Cymuned/Tref y mae'r datblygiad a dalodd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i leoli ynddo, ar gyfer darparu gwelliannau seilwaith lleol, neu fesurau eraill, a hynny er mwyn cefnogi datblygiadau lleol (y cyfeirir ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol lleol).
- Rhaid cymhwyso 80% o Ardoll Seilwaith Cymunedol at seilwaith strategol er mwyn cefnogi twf ardal yr Awdurdod Codi Tâl (y cyfeirer ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol).

Cyfanswm Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol

Cyfanswm Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2014/15 oedd £0.00

Cyfanswm Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2015/16 oedd £279,467.17

Mae manylion pob derbynneb Ardoll Seilwaith Cymunedol, a sut y cafodd ei phennu wedi'u hatodi yn Atodiad A.

Yr 80% Strategol (i'w wario ar eitemau ar restr Rheoliad 123)

Cyfanswm yr Incwm Strategol yn 2015/16 oedd £223,956.24.

Lleol 15%

Cyfanswm Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2015/16 oedd £41,537.58

Mae 12 ardal Cyngor Cymuned/Tref yn Rhondda Cynon Taf. Dyma nhw: Y Gilfach-goch, Hirwaun, Llanharan, Llanhari, Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Pont-y-clun, Pontypridd, Y Rhigos, Ffynnon Taf, Tonyrefail ac Ynys-y-bŵl.

Cyfanswm Ardoll Seilwaith Cymunedol Leol (rhoddwyd 15% i Gynghorau Cymuned/Tref) yn 2014/15 oedd £0.

Cyfanswm Ardoll Seilwaith Cymunedol Leol (rhoddwyd 15% i Gynghorau Cymuned/Tref) yn 2015/16 oedd £36,956.05.

Caiff £4,581.53, a ddaeth i law rhwng 1 Hydref 2015 a 31 Mawrth 2016, ei roi i'r Cyngor Cymuned/Tref perthnasol erbyn 28 Ebrill 2016.

Yn yr ardaloedd hynny lle nad oes Cyngor Cymuned/Tref, y cyfanswm yn 2014/15 a 2015/16 oedd £0.

Mae'r cyfanswm a roddwyd i bob Cyngor Cymuned/Tref wedi'i nodi yn Atodiad B.

Gweinyddol 5%

Cyfanswm Incwm Gweinyddu yn 2014/15 oedd £0.

Cyfanswm Incwm Gweinyddu yn 2015/16 oedd £13,973.35.

Gwariant Ardoll Seilwaith Cymunedol

Nid oedd unrhyw wariant Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol yn 2014/15 nac yn 2015/16.

Costau Gweinyddu Ardoll Seilwaith Cymunedol

Yn 2015/16, cafodd y swm £13,073.35 ei bennu ar gyfer costau sefydlu a gweinyddu Ardoll Seilwaith Cymunedol, sef tua 5% o incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer y flwyddyn. Caiff yr arian ei ddefnyddio er mwyn ariannu proses ymgynghori barhaus ar Restr Rheoliad 123, ar gyfer costau argraffu a chyhoeddi ac ar gyfer cyfrannu, o bosibl, at system TG a fyddai'n cefnogi gwaith gweinyddu Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddygwyd ymlaen i 2016/17

Mae swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddygwyd ymlaen i 2016/17 wedi'i nodi yn y tabl canlynol;

ASC A DDYGWYD YMLAEN	SWM
ASC Strategol	£223,956.24
ASC Lleol	£4,581.53 (wedi'i dalu ym mis Ebrill 2016)
ASC Gweinyddol	£13,973.35

Atodiad A – INCWM ASC YN 2015/2016

Dyddiad dod i law	Cyfeirnod Cais Cynllunio	Cyfeiriad y Safle	Math o Ddatblygiad Tâl Ardoll Seilwaith Cymunedol	Swm	Gweinyddu	Strategol	Lleol (Cyngor Cymuned/Tref)
14/05/15	14/0620	Tir ger Cardiff Road, Rhydfelen	Parth preswyl 2	£241,007.99 Swm llawn	£12.050.39	£193,188.90	£35,768.70 CC Pontypridd
09/08/15	14/1380	Tir yn gyfagos i Glwb Cymdeithasol Trethomas, Francis Street, Trethomas	Parth preswyl 2	£7,915.65 Rhandaliad cyntaf	£395.78	£6,332.52	£1,187.35 CC Tonyrefail
09/10/15	14/1386	Hen Ysgol Babanod Glan- taf, Powys Place, Rhydfelen	Parth preswyl 2	£11,313.94 Rhandaliad cyntaf	£565.70	£9,051.15	£1,697.09 CC Pontypridd
09/12/15	14/1386	Hen Ysgol Babanod Glan- taf, Powys Place, Rhydfelen	Parth preswyl 2	£11,313.94 Rhandaliad cyntaf	£565.70	£9,051.15	£1,697.09 CC Pontypridd
15/02/16	14/1380	Tir yn gyfagos i Glwb Cymdeithasol Trethomas, Francis Street, Trethomas	Parth preswyl 2	£7,915.65 Rhandaliad terfynol	£395.78	£6,332.52	£1,187.35 CC Tonyrefail

*Nodyn: Roedd Cais 14/0620 yn cynnwys gordal o £2,550 wedi'i dalu o ganlyniad i gychwyniad tybiedig. O dan Reoliad 88, ni cheir dosrannu gordaliadau i gynghorau cymuned/tref, a rhaid eu rhannu yn 5% at gostau gweinyddu a 95% at seilwaith strategol.

Atodiad B – INCWM ASC SEILWAITH LLEOL CYNGHORAU CYMUNED NEU DREF

Cyngor Cymuned neu Dref	15% i'w roi i gyngor lleol	Dyddiad rhoi	Swm a roddwyd	Gweddill
Y Gilfach-goch	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Hirwaun	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llanharan	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llanhari	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llantrisant	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llanilltud Faerdref	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Pont-y-clun	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Pontypridd	£39,162.88	13 Tachwedd 2015	£35,768.70	£3,394.18 (talwyd ym mis Ebrill 2016)
Y Rhigos	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Ffynnon Taf	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Tonyrefail	£2,374.70	13 Tachwedd 2015	£1,187.35	£1,187.35 (talwyd ym mis Ebrill 2016)
Ynys-y-bŵl	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	